

EDEXCEL Vocational Study, Personal Growth and Wellbeing Level Entry 3



Yn gryno

Mae'r cwrs hwn yn un delfrydol os nad ydych yn rhy siwr ynghylch coleg neu addysg bellach. Yn ogystal â'ch cyflwyno i'r coleg a bywyd coleg, bydd y cwrs yn rhoi'r cyfle ichi gael blas ar o leiaf dau wahanol faes galwedigaethol yn ystod eich blwyddyn gyntaf.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych yn ansicr beth ydych eisiau ei wneud nesaf

... Ydych eisiau gweld ai coleg yw'r dewis iawn i chi

... Ydych eisiau datblygu sgiliau personol a chymdeithasol i'ch paratoi'n well ar gyfer eich bywyd gwaith

Beth fyddaf yn ei wneud?



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn ymarfer sgiliau a thechnegau mewn amgylcheddau realistig, tebyg i fyd gwaith, yn y coleg, i roi blas ichi ar y gweithle a sut beth yw astudio un o'r llwybrau ar sail amser llawn.

Busnes
Sgiliau Digidol
TGCh
Gwasanaethau Cyhoeddus
Chwaraeon

Byddwch hefyd yn astudio pynciau sy'n helpu eich datblygiad personol a chymdeithasol, gan gynnwys:

Delio â Phroblemau Bywyd Dydd i Ddydd
Rheoli Perthnasoedd Cymdeithasol
Rheoli Risg o ran Iechyd, Llesiant a Diogelwch Personol
Perthnasoedd Personol a Chymdeithasol
Deall Hunaniaeth Personol
Ffyrdd Iach o Fyw
Gweithredu Cymunedol
Sut a Pham mae Busnesau'n Gweithredu
Cynilo a Gwario
Benthyca Arian a Rheoli Risg

Drwy gydol y cwrs, byddwch yn cael eich asesu drwy aseiniadau, tasgau ac asesiadau ymarferol i gyflawni, yn y pen draw:

Tystysgrif BTEC Lefel 2 mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol
Tystysgrif Lefel 1 Prince's Trust mewn Datblygiad Personol a Sgiliau Cyflogadwyedd
Gweithgareddau Sgiliau (os nad oes gennych Radd C neu uwch mewn Mathemateg a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf, yna bydd angen ichi fynychu gwersi sgiliau ochr yn ochr â'ch astudiaethau)
Cymwysterau perthnasol eraill i gyfoethogi eich set sgiliau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol, ond bydd angen ichi fod yn frwdfrydig, yn weithgar ac yn barod i roi cynnig ar bob un o'r opsiynau galwedigaethol. Bydd hefyd angen ymrwymiad i bresenoldeb llawn a bod yn brydlon i bob sesiwn. Bydd myfyrwyr sy'n dewis y llwybr hwn wedi cael graddau TGAU D-G, o bosib. Efallai y bydd rhai wedi cal graddau uwch na hynny ond eu bod yn ansicr ynghylch y llwybr maent eisiau ei ddilyn.

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi'r cyfle ichi ddatblygu sgiliau defnyddiol, trosglwyddedig mewn cwblhau tasgau i'ch helpu i symud ymlaen at ddysgu pellach. Os ydych yn penderfynu bod un o'r meysydd galwedigaethol ar eich cyfer chi, gallwch barhau â'ch astudiaethau ar Lefel 2/3.

Gwybodaeth Ychwanegol

Efallai y bydd costau ychwanegol yn codi yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol, ac efallai y bydd arnoch angen offer diogelwch ar gyfer rhai o'r meysydd galwedigaethol. Bydd hyn yn cael ei drafod pan fyddwch yn dewis eich opsiynau galwedigaethol ac ni ddylai gostio mwy na £35.00.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

